Rhif ymchwil gymdeithasol: 59/2025

Dyddiad cyhoeddi: 19/06/2025

# Nodyn technegol: gosod y gyfradd ariannu ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru ar gyfer Ebrill 2025 i Mawrth 2026

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Crown Copyright
Digital ISBN **978-1-83715-889-8**

Nodyn technegol: gosod y gyfradd ariannu ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru ar gyfer Ebrill 2025 i Mawrth 2026

Awduron: Bethan Gilson a Dr Jack Watkins

Adroddiad Ymchwil Llawn: Gilson, B & Watkins, J. (2025) Nodyn Technegol: Gosod y gyfradd ariannu ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru ar gyfer Ebrill 2025 i Mawrth 2026, Caerdydd: Llwyodraeth Cymru, Rhif ymchwil gymdeithasol: 59/2025

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/nodyn-technegol-sefydlur-gyfradd-fesul-awr-cynnig-gofal-plant-cymru-ar-gyfer-ebrill-2025-i-mawrth-2026

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Enw: Dr Jack Watkins

Adran: Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

1. Cefndir ..... 3
2. Nodau a dulliau ..... 5
Nodau ac amcanion ..... 5
Ffynonellau data ..... 5
3. Canfyddiadau ..... 8
Nodweddion cyffredinol y farchnad gofal plant yng Nghymru ..... 8
Nodweddion cyffredinol ffioedd ..... 9
Ffioedd cyfartalog ..... 10
Perthynas rhwng ffioedd a nodweddion y gwasanaethau ..... 11
Gwahaniaethau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol ..... 15
Effaith Cynnig Gofal Plant Cymru ..... 16
Cynaliadwyedd busnes ..... 18
Chwyddiant ..... 21
4. Newid i'r gyfradd a delir i ddarparwyr Cynnig Gofal Plant Cymru ..... 23

**Rhestr tablau**

Tabl 1. Plant o bob oedran fel canran o'r holl blant y gofelir amdanynt ...................... 8
Tabl 2: Canran y gwasanaethau sy'n gofalu am bob grŵp oedran a ddarparodd wybodaeth am ffioedd yn ôl cyfnod amser ................................................................ 9
Tabl 3. Ffioedd cymedrig wedi'u pwysoli yn ôl grŵp oedran.................................... 10
Tabl 4. Ffioedd cymedrig yn ôl oedran yn ôl nifer y plant y gofelir amdanynt ........... 12
Tabl 5: Ffioedd cymedrig am ofal plant 3 a 4 oed yn ôl nodweddion gwasanaethau 13
Tabl 6. Ffioedd cymedrig ar gyfer plant tair a phedair oed yn ôl awdurdod lleol....... 15
Tabl 7. Cyfran o gyfanswm incwm gwasanaethau gofal plant sy'n deillio o wahanol ffynonellau ........................................................................................................ 16
Tabl 8. Ffioedd am ddarparu gofal plant fel rhan o Gynnig Gofal Plant Cymru fel cyfran o gyfanswm yr incwm, nodweddion dethol .............................................................. 17
Tabl 9. Cyfran o'r costau a adroddwyd fesul eitem.................................................. 18
Tabl 10: Ymatebion i'r cwestiwn "Yn y ddwy flynedd ddiwethaf ers Ebrill 2022, a yw eich costau wedi cynyddu neu leihau?".................................................................. 20

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1: Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr, 1989-2024 ............................... 21

# 1. Cefndir

1.1. Cynnig Gofal Plant Cymru ("y Cynnig") yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu hyd at 30 awr yr wythnos o addysg feithrin (a gaiff ei adnabod hefyd fel addysg gynnar) a gofal plant ar gyfer plant cymwys tair a phedair oed yng Nghymru. Teuluoedd cymwys yw'r teuluoedd lle mae pob rhiant naill ai mewn cyflogaeth, bob un yn ennill mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a llai na £100,000 y pen y flwyddyn, neu sydd wedi'u cofrestru ar gwrs addysg bellach neu uwch cymwys[1].

1.2. Bwriad y Cynnig yw bod yn gymhelliant sy'n gysylltiedig â gwaith, gyda'r bwriad o gefnogi teuluoedd incwm isel yn ôl i'r gweithle neu gynyddu eu horiau gwaith. Rhesymeg hyn yw mai cyflogaeth yw'r ffordd orau o godi teuluoedd allan o dlodi.

1.3. Mae'r 30 awr a ariennir yn cynnwys cymysgedd o oriau o:

- addysg feithrin, a ddarperir naill ai mewn ysgolion meithrin a gynhelir neu nas cynhelir a darparwyr addysg eraill; ac
- oriau o ofal plant a ddarperir gan ddarparwyr gofal dydd plant neu warchodwyr plant.

Mewn rhai achosion, gall un darparwr ddarparu elfennau addysg feithrin a gofal plant y rhaglen.

1.4. Ers dechrau'r Cynnig yn 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfradd talu ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu gofal a ariennir drwy'r Cynnig. Mae'r gyfradd a delir i ddarparwyr y Cynnig wedi bod o dan chwyddwydr gwaith dadansoddol gan Lywodraeth Cymru ddwywaith o'r blaen. Cynhaliwyd y cyntaf o'r rhain yn 2017 er mwyn pennu cyfradd ar gyfer cyflwyno'r Cynnig yn 2018 (£4.50 yr awr), a chynhaliwyd yr ail yn 2021 i lywio newid i'r gyfradd oedd i'w weithredu ym mis Ebrill 2022 (£5.00 yr awr - mae'r gyfradd hon wedi bod ar waith yn barhaus ers hynny). Gwnaed ymrwymiad yn 2022 y byddai'r gyfradd yn cael ei hadolygu ar ôl tair blynedd:

> Bydd y cynnydd hwn [o £4.50 i £5.00] yn helpu i wella cynaliadwyedd ar draws y sector gofal plant yng Nghymru, gan sicrhau y gall rhieni sy'n gweithio barhau i elwa o'r Cynnig Gofal Plant. Bydd hefyd yn galluogi'r ddarpariaeth barhaus o ofal ac addysg o ansawdd uchel, gan roi'r dechrau gorau oll mewn bywyd i blant. I gefnogi hyn, rwyf hefyd wedi ymrwymo i adolygu'r gyfradd o leiaf bob tair blynedd.
> Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o gyfradd fesul awr Cynnig Gofal Plant Cymru (22 Chwefror 2022) | LLYW.CYMRU

1.5. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi alinio cyfraddau cyllido ar gyfer rhaglenni blynyddoedd cynnar eraill i'r gyfradd a delir i ddarparwyr y Cynnig. Caiff

[1] Cael 30 awr o ofal plant i blant 3 a 4 oed: Pwy sy'n gymwys | LLYW. CYMRU

awdurdodau lleol eu hariannu i ddarparu rhwng 10 a 12.5 awr o addysg feithrin yr wythnos i blant tair a phedair oed (naill ai o ran eu darpariaeth nhw eu hunain neu drwy gyfrwng lleoliadau nas cynhelir). Yr awdurdodau lleol sy’n pennu'r cyllid ar gyfer y ddarpariaeth addysg feithrin hon, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r cyllid cyffredinol drwy fformiwlâu cyllido. Mae'r fformiwlâu hyn yn cynnwys cyfeiriad at y gyfradd a delir i ddarparwyr y Cynnig. Yn yr un modd, cynyddwyd cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer darparu elfen gofal plant rhaglen Dechrau'n Deg yn 2022 yn gymesur â'r cynnydd yn y gyfradd fesul awr ar gyfer darparwyr y Cynnig.

# 2. Nodau a dulliau

### Nodau ac amcanion

2.1. Nod yr adolygiad hwn oedd nodi cyfradd i'w thalu i ddarparwyr y Cynnig o fis Ebrill 2025. Dyma oedd amcanion yr adolygiad:

- Nodi cyfradd y farchnad ar gyfer awr o ofal plant i blant tair a phedair oed yng Nghymru.
- Asesu a fyddai cyfradd y farchnad yn debygol o fod yn ddigonol i dalu costau darparwyr, gan ystyried effaith chwyddiant prisiau a newidiadau i gyflogau statudol ar gost darparu gwasanaethau gofal plant.
- Asesu a yw Cynnig Gofal Plant Cymru, neu raglenni eraill a ariennir, yn newid deinameg y farchnad gofal plant yn sylweddol mewn ffordd a fyddai'n dylanwadu ar gyfradd gyfartalog y farchnad.

### Ffynonellau data

2.2. Defnyddiodd yr adolygiad ddwy brif ffynhonnell dystiolaeth. Mae Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) Arolygiaeth Gofal Cymru yn holiadur hunan-gwblhau sy'n cael ei anfon i'r holl wasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig yng Nghymru. Mae cwblhau SASS yn ofyniad rheoleiddiol ar gyfer yr holl wasanaethau gofal plant a chwarae rheoleiddiedig yng Nghymru. Yn y casgliad SASS diweddaraf (Ionawr-Chwefror 2024), cwblhaodd 93 y cant (3,118) o wasanaethau cofrestredig (n=3,370) yr hunanasesiad.

2.3. Gan fod SASS 2024 wedi'i gasglu o wasanaethau rhwng mis Ionawr a Chwefror 2024, mae'r holl ymatebion yn ymwneud â'r cyfnod hwn. Er mwyn asesu newid dros amser, roedd yr adolygiad hwn hefyd yn cynnwys dadansoddiad o ddata blynyddoedd cynharach.

2.4. Mae SASS fel arfer yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â:

- natur y gwasanaeth a ddarperir;
- nifer y plant y gofelir amdanynt;
- ffioedd a godir am wasanaethau;
- ffynonellau eraill o gyllid; a
- staffio ac adnoddau.

2.5. Ers 2021, mae SASS wedi gofyn i ymatebwyr gofnodi ffioedd ar gyfer pob un o amrywiaeth o grwpiau oedran, ac ar gyfer pob grŵp oedran fesul awr, sesiwn, diwrnod, wythnos neu dymor. Er mwyn galluogi cymhariaeth, safonwyd y data hyn i greu un ffigur fesul awr ar gyfer pob grŵp oedran ar gyfer pob darparwr. Byddai hyn yn galluogi cymhariaeth â'r gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr y Cynnig, ac yn cynyddu maint y sampl ar gyfer ei dadansoddi. Cyflawnwyd hyn drwy'r camau canlynol:

- Lluoswyd data ar gyfer cyfnodau heblaw awr â lluosyddion dethol i gynhyrchu cyfradd yr awr. Roedd y lluosyddion a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar gyfartaledd oriau agor y gwasanaethau fel yr adroddwyd yn y SASS, gyda diwrnod yn cynrychioli 8.06 awr ac wythnos yn cynrychioli 8.06 wedi'i luosi â phump (40.31 awr).

- Tynnwyd data ar gyfer y tymor a'r sesiwn o'r set ddata, gan nad oedd diffiniad clir o faint o oriau a gynhwyswyd ac roedd amrywiad sylweddol yn lefelau'r ffioedd a adroddwyd yn erbyn pob un o'r cyfnodau hyn.

- Cynhyrchwyd pwysoliadau drwy gyfrifo canran yr holl blant o bob oedran a fynychai bob gwasanaeth. Cafodd gwasanaethau oedd yn codi ffioedd yn ôl sesiwn neu dymor yn unig eu tynnu o'r pwysoliad.

- Tynnwyd data ar gyfer y grwpiau oedran 12-14 a 15-17. Mae proffil y gwasanaethau sy'n gofalu am bobl ifanc o'r grwpiau oedran hyn yn awgrymu bod y gofal hwn yn cael ei brynu'n bennaf mewn perthynas â phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Adlewyrchir hyn yn y lefelau ffioedd uchel iawn. Mae nifer y bobl ifanc o'r grwpiau oedran hyn sy'n derbyn gofal yn cynrychioli llai nag un y cant o gyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn gwasanaethau cofrestredig.

- Pan fo gwasanaethau yn darparu cyfradd yr awr yn ychwanegol at gyfraddau eraill, defnyddiodd y dadansoddiad pa bynnag ffigur oedd uchaf.

- Cyfrifwyd cymedr wedi'i bwysoli i ddangos y cymedr wedi'i bwysoli gan gyfran y plant o bob oedran y gofalwyd amdanynt gan bob gwasanaeth (ac felly, faint o blant fyddai'n ddarostyngedig i bob ffi).

2.6. Cyfrifwyd cymedrau wedi'u pwysoli ar gyfer pob grŵp oedran. Bwriad hyn oedd dangos sut roedd ffioedd yn wahanol rhwng grwpiau oedran, gan nodi'r potensial ar gyfer croes-gymhorthdal[2]. Bwriad y defnydd o gymedrau wedi'u pwysoli oedd nodi'r tebygolrwydd y byddai plentyn yn ddarostyngedig i ffi benodol, ac felly i roi mwy o bwysoliad i'r gwasanaethau hynny sy'n gofalu am fwy o blant. Mae'r dull hwn yn ymgais i adlewyrchu profiad teuluoedd yn well, yn ogystal â deinameg y farchnad gofal plant.

2.7. Ategwyd data SASS gan gasgliad data ychwanegol drwy arolwg hunan-gwblhau. Er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o'r farchnad gofal plant yng Nghymru, roedd yr arolwg yn targedu gwybodaeth am incwm, gwariant a chapasiti gwasanaethau gofal plant (n=288). Dyluniwyd yr arolwg hwn gyda mewnbwn gan sefydliadau oedd yn cynrychioli'r sector ac fe'i dosbarthwyd drwy'r sefydliadau hyn a thrwy'r

[2] Roedd adborth anecdotaidd o'r ymgysylltiad parhaus â gwasanaethau gofal plant a chwarae wedi dangos arfer o 'groes-gymhorthdal' yn y farchnad gofal plant, pan fo rhai gwasanaethau yn defnyddio unrhyw warged a gynhyrchir drwy ofal i blant hŷn i leihau ffioedd gofal i blant iau (sy'n destun cymarebau uwch o ran oedolion:plant ac felly yn ddrutach i ofalu amdanynt). Bwriad yr arfer hwn yw safoni costau i rieni ar draws gwahanol oedrannau, gan eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth dros gyfnod hirach.

manylion cyswllt a gedwir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i rhaglenni blynyddoedd cynnar a ariennir. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar:

- lefelau incwm a dderbynnir drwy wahanol ffynonellau;
- lefelau gwariant sy'n gysylltiedig ag allbynnau amrywiol; ac
- ystyriaethau ynghylch cynaliadwyedd busnes.

# 3. Canfyddiadau

**Nodweddion cyffredinol y farchnad gofal plant yng Nghymru**

3.1. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cofnodi nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig fel rhan o'i rôl fel rheoleiddiwr. Ym mis Awst 2024, pan wnaed gwaith dadansoddol ar gyfer yr adolygiad presennol, roedd 2,895 o wasanaethau gofal plant a chwarae cofrestredig cymeradwy[3] yn gweithredu yng Nghymru.

3.2. Cofnododd data monitro Cynnig Gofal Plant Cymru fod 2,068 o wasanaethau gwahanol wedi'u hariannu i gyflawni'r rhaglen rhwng mis Medi 2023 ac Awst 2024. Mae hyn yn cynrychioli 71 y cant o gyfanswm nifer y gwasanaethau y credir eu bod yn weithredol ym mis Awst 2024.

3.3. Dangosodd dadansoddiad o ddata SASS 2024 mai'r grŵp mwyaf poblog o blant mewn gofal plant yn ôl oedran oedd plant dwy oed (23 y cant o'r holl blant). Mae plant tair a phedair oed yn cynrychioli 31 y cant o gyfanswm nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant. Adlewyrchir hyn yn Nhabl 1 isod:

**Tabl 1. Plant o bob oedran fel canran o'r holl blant y gofelir amdanynt**

| Grŵp oedran | Plant o'r oedran hwn fel canran o'r holl blant y gofelir amdanynt |
|---:|---:|
| Dan 1 oed | 3% |
| 1 oed | 13% |
| 2 oed | 23% |
| 3 oed | 21% |
| 4 oed | 10% |
| 5 i 7 oed | 15% |
| 8 i 11 oed | 14% |

Ffynhonnell: SASS 2024

[3] Gwasanaethau â statws cymeradwy yw'r rhai nad ydynt wedi'u hatal neu eu canslo ac felly fe'u hystyrir fel gwasanaethau sydd wrthi'n gofalu am blant.

**Nodweddion cyffredinol ffioedd**

3.4. Yn SASS 2024, gallai gwasanaethau gyflwyno gwybodaeth am ffioedd fesul awr, sesiwn, diwrnod, wythnos neu dymor. Tynnwyd y ffioedd sesiwn a thymor o'r dadansoddiad presennol, gan fod y ffioedd ar gyfer y ddau gategori hyn yn cynnwys gwahaniaethau mawr ac nid oedd yn bosibl gwneud cymariaethau dilys rhwng ymatebion unigol mewn perthynas â'r cyfnodau hyn (gweler paragraff 2.5 uchod). Ar gyfer y mathau o ffioedd oedd yn weddill, y mwyaf cyffredin oedd fesul dydd, ac yna fesul awr. Adlewyrchir hyn yn Nhabl 2 isod:

**Tabl 2: Canran y gwasanaethau sy'n gofalu am bob grŵp oedran a ddarparodd wybodaeth am ffioedd yn ôl cyfnod amser**

| Grŵp oedran | Fesul awr | Fesul diwrnod | Fesul wythnos |
|---:|---:|---:|---:|
| Dan 1 oed | 26% | 84% | 28% |
| 1 oed | 38% | 72% | 20% |
| 2 oed | 41% | 68% | 17% |
| 3 oed | 44% | 66% | 17% |
| 4 oed | 44% | 65% | 17% |
| 5 i 7 oed | 55% | 53% | 11% |
| 8 i 11 oed | 57% | 49% | 9% |

Ffynhonnell: SASS 2024

**Ffioedd cyfartalog**

3.5. Mae Tabl 3 isod yn cyflwyno'r cymedrau wedi'u pwysoli a gyfrifwyd o ddata SASS 2024 ar gyfer pob grŵp oedran. Mae'r rhain wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r dull a nodir ym mharagraff 2.5 uchod.

**Tabl 3. Ffioedd cymedrig wedi'u pwysoli yn ôl grŵp oedran**

| Grŵp oedran | Cymedr wedi'i bwysoli |
|---:|---:|
| Dan 1 oed | £7.12 |
| 1 oed | £7.62 |
| 2 oed | £6.36 |
| 3 oed | £5.86 |
| 4 oed | £5.67 |
| 5 i 7 oed | £5.31 |
| 8 i 11 oed | £5.05 |

Ffynhonnell: SASS 2024

3.6. Roedd ffioedd cymedrig wedi'u pwysoli yn uwch ar gyfer plant iau. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r cymarebau oedolion:plant uwch a nodir ar gyfer y grwpiau oedran hyn yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio[4] ond hefyd cymhlethdod cynyddol gofalu am blant iau (ac felly costau llafur uwch y gofal hwn). O berthnasedd penodol i'r Cynnig yw'r canfyddiad bod y ffi gymedrig wedi'i phwysoli ar gyfer plant pedair oed yn is na'r ffi gymharol ar gyfer plant tair oed.

3.7. Y ffi gymedrig fesul awr wedi'i phwysoli ar gyfer gofal plant tair a phedair oed gyda'i gilydd oedd **£5.76**. Cyfrifwyd hyn fel cymedr y ffioedd cymedrig wedi'u pwysoli ar gyfer plant tair a phedair oed, fel y nodir yn Nhabl 3 uchod.

[4] Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio | LLYW.CYMRU

**Perthynas rhwng ffioedd a nodweddion y gwasanaethau**

3.8. Cynhaliwyd dadansoddiad pellach o wybodaeth am ffioedd i nodi'r berthynas bosibl rhwng lefelau ffioedd a nodweddion dethol gwasanaethau gofal plant a chwarae. Mae Tabl 4 isod yn cynnwys ffioedd cymedrig yn ôl grŵp oedran ar gyfer gwasanaethau o wahanol feintiau, fel y'u mesurir gan gyfanswm nifer y plant y gofelir amdanynt yn y gwasanaeth. Mae'r tabl yn dangos bod y ffioedd uchaf, ar gyfer pob grŵp oedran, i'w cael mewn gwasanaethau sy'n gofalu am naill ai 50-99 o blant neu ar gyfer mwy na 100 o blant.

**Tabl 4. Ffioedd cymedrig yn ôl oedran yn ôl nifer y plant y gofelir amdanynt**

| **Nifer y plant y gofelir amdanynt** | **0 i 9** | **10 i 19** | **20 i 29** | **30 i 39** | **40 i 49** | **50 i 99** | **100 neu fwy** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffi dan 1 | £5.40 | £5.44 | £6.20 | £6.30 | £6.70 | £6.98 | £7.43 |
| Ffi 1 oed | £5.18 | £5.30 | £5.63 | £6.23 | £6.79 | £6.91 | £7.70 |
| Ffi 2 oed | £5.14 | £5.09 | £4.73 | £5.11 | £6.01 | £6.63 | £6.85 |
| Ffi 3 oed | £5.13 | £5.14 | £4.55 | £4.98 | £5.76 | £6.14 | £6.43 |
| Ffi 4 oed | £4.86 | £5.00 | £4.34 | £4.83 | £5.53 | £5.91 | £6.02 |
| Ffi 5 i 7 oed | £4.83 | £4.76 | £4.80 | £4.37 | £4.96 | £5.03 | £4.87 |
| Ffi 8 i 11 oed | £4.81 | £4.72 | £4.78 | £4.08 | £4.67 | £4.74 | £4.63 |
| Plant 3 a 4 oed | £5.00 | £5.07 | £4.44 | £4.91 | £5.65 | £6.03 | £6.23 |
| Cyfanswm nifer y gwasanaethau | 715 | 697 | 384 | 288 | 206 | 521 | 305 |

Ffynhonnell: SASS 2024

3.9. Cyfrifwyd ffioedd cymedrig (heb eu pwysoli) ar gyfer pob categori oedran gan ddefnyddio is-grwpiau o wasanaethau gofal plant a chwarae sy'n cynrychioli nodweddion penodol o ddiddordeb. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Ffioedd cymedrig am ofal plant 3 a 4 oed yn ôl nodweddion gwasanaethau**

| Nodwedd | Cyfanswm nifer y gwasanaethau | Fel cyfran o'r holl wasanaethau sy'n gofalu am blant tair neu bedair oed | Ffi gymedrig |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth (cymedrig) yn fwy na'r cyfartaledd | 735 | 37.01% | £6.01 |
| Cymwysterau Lefel 5 gan unrhyw aelod o staff | 758 | 38.17% | £5.97 |
| Pob gwasanaeth sy'n gofalu am blant tair neu bedair oed (cymedr wedi'i bwysoli) | 1986 | 100.00% | £5.76 |
| Gwasanaeth (cymedrig) yn fwy na'r cyfartaledd | 961 | 48.39% | £5.75 |
| Yn talu mwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol i unrhyw aelod o staff | 875 | 44.06% | £5.69 |
| Darparu Dechrau'n Deg | 593 | 29.86% | £5.64 |
| Cymwysterau Lefel 3 gan unrhyw aelod o staff | 1131 | 56.95% | £5.63 |
| Wedi'i leoli yn yr 20% o AGEHI lleiaf difreintiedig | 494 | 24.87% | £5.62 |
| Gofalu am blant dan 3 oed | 1716 | 86.40% | £5.58 |
| Cefnogi plant ag ADY | 1406 | 70.80% | £5.54 |
| Gofal dydd i blant | 1126 | 56.70% | £5.52 |
| Darparu'r Cynnig Gofal Plant | 1662 | 83.69% | £5.48 |
| Pob gwasanaeth sy'n gofalu am blant tair neu bedair oed (cymedr heb ei bwysoli) | 1986 | 100.00% | £5.38 |
| Wedi'i leoli yn yr 20% o AGEHI mwyaf difreintiedig | 258 | 12.99% | £5.37 |
| Gwarchodwr Plant | 860 | 43.30% | £5.15 |
| Cymraeg yw'r brif iaith weithredol | 266 | 13.39% | £4.52 |

Ffynhonnell: SASS 2024

3.10. Mae Tabl 5 yn cefnogi'r canfyddiad a ddangosir yn Nhabl 4 uchod, bod gwasanaethau mwy yn tueddu i godi ffioedd uwch. Ar wahân i faint, y nodweddion a oedd yn gysylltiedig â ffioedd uwch am ofal plant tair a phedair oed oedd staff â chymhwyster Lefel 5 neu Lefel 3, staff yn cael eu talu mwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol[5] a'r gwasanaeth yn darparu rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru.

3.11. Mae Tabl 5 hefyd yn dangos y canlynol:

- Roedd ffioedd yn uwch mewn gwasanaethau yn yr 20 y cant o ardaloedd lleol lleiaf difreintiedig yng Nghymru nag yn yr 20 y cant o ardaloedd lleol mwyaf difreintiedig;
- Roedd ffioedd a godir gan warchodwyr plant yn is na'r ffioedd a godir gan wasanaethau gofal dydd plant;
- Y ffioedd a godwyd mewn gwasanaethau a'u prif iaith weithredol oedd y Gymraeg oedd yr isaf o'r holl nodweddion a ddewiswyd.

[5] Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol (gweler What is the real Living Wage? | Living Wage Foundation) yn amcangyfrif annibynnol o'r isafswm cyflog fesul awr sydd ei angen i dalu costau byw. Ar yr adeg pan gasglwyd data SASS 2024 ym mis Ionawr 2024, y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer y DU oedd £12.00

**Gwahaniaethau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol**

3.12. Roedd ffioedd cymedrig ar gyfer plant tair a phedair oed yn wahanol yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae Tabl 6 isod yn dangos y gwahaniaeth hwn, gan ddangos yr uchaf i'r isaf.

**Tabl 6. Ffioedd cymedrig ar gyfer plant tair a phedair oed yn ôl awdurdod lleol**

| **Awdurdod lleol** | **Ffi gymedrig plant 3 a 4 oed** |
|---|---:|
| Caerdydd | £6.68 |
| Casnewydd | £6.11 |
| Rhondda Cynon Taf | £6.09 |
| Blaenau Gwent | £5.96 |
| Bro Morgannwg | £5.94 |
| Sir Fynwy | £5.93 |
| Merthyr Tudful | £5.82 |
| Abertawe | £5.73 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £5.68 |
| **Cymru** | **£5.45** |
| Powys | £5.32 |
| Ynys Môn | £5.22 |
| Conwy | £5.20 |
| Caerffili | £5.17 |
| Sir y Fflint | £5.12 |
| Castell-nedd Port Talbot | £5.11 |
| Sir Benfro | £5.03 |
| Wrecsam | £5.02 |
| Sir Gâr | £4.89 |
| Torfaen | £4.82 |
| Sir Ddinbych | £4.78 |
| Gwynedd | £4.57 |
| Ceredigion | £4.53 |

Ffynhonnell: SASS 2024

3.13. Mae'r data yn Nhabl 6 yn awgrymu, yn gyffredinol (ac eithrio Torfaen), bod ffioedd ar eu huchaf mewn awdurdodau lleol yn y de-ddwyrain.

**Effaith Cynnig Gofal Plant Cymru**

3.12. Rhwng mis Mai a Mehefin 2024 cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein ar gyfer darparwyr gofal plant a chwarae i'w hunan-gwblhau. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg hwn am ffynonellau incwm. Mae Tabl 7 isod yn dangos y gyfran gymedrig o gyfanswm yr incwm a ddosrannwyd gan yr ymatebwyr i bob pennawd.

**Tabl 7. Cyfran o gyfanswm incwm gwasanaethau gofal plant sy'n deillio o wahanol ffynonellau**

| Ffynhonnell incwm | Cyfran o gyfanswm yr incwm |
|---|---:|
| Ffioedd gan rieni | 62% |
| Ffioedd am ddarparu gofal plant fel rhan o Gynnig Gofal Plant Cymru | 22% |
| Ffioedd am ddarparu gofal plant fel rhan o Dechrau'n Deg | 6% |
| Ffioedd am ddarparu addysg feithrin ar ran yr awdurdod lleol | 4% |
| Cyllid grant gan Lywodraeth Cymru neu Awdurdod Lleol | 4% |
| Ffioedd eraill gan awdurdod lleol am ddarparu gofal plant neu waith chwarae | <1% |
| Codi arian neu roddion ariannol | <1% |
| Cyllid gan ymddiriedolaeth elusennol neu gyllid grant | <1% |
| Unrhyw beth arall nad yw'n cael ei gynnwys uchod (nodwch isod) | <1% |
| Cyllid Llywodraeth Cymru / Awdurdod Lleol ar gyfer hyfforddiant staff | <1% |
| Ffioedd am nwyddau neu wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â gofal plant, gwaith chwarae neu addysg gynnar | <1% |
| Grantiau nad ydynt yn gysylltiedig â gofal plant, gwaith chwarae neu addysg gynnar | <1% |
| Enillion cyfalaf | <1% |

Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Gofal Plant ar Incwm a Gwariant, 2024 (n=288)

3.13. Ar draws holl ymatebwyr yr arolwg (n=288) daeth 22 y cant o'r incwm o'r Cynnig. Dyma'r ffynhonnell incwm fwyaf ond un ar ôl ffioedd gan rieni (62 y cant).

3.14. Roedd yr adolygiad yn ceisio asesu a fyddai effaith ariannol y Cynnig yn fwy ar gyfer gwasanaethau a allai, am wahanol resymau, fod yn llai cynaliadwy yn ariannol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwarchodwyr Plant, gan fod Adolygiad Annibynnol 2023 o Warchod Plant yng Nghymru[6] wedi codi pryderon am gynaliadwyedd busnes parhaus gwarchodwyr plant;
- Gwasanaethau sy'n cefnogi plant ag anghenion ychwanegol, wrth i ymchwil i Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru[7] dynnu sylw at gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY); a
- Gwasanaethau sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol neu'n uwch i staff, mewn ymateb i bryder eang yn y sector gofal plant ynghylch cyflog ac, yn benodol, goruchafiaeth yr isafswm cyflog.

3.15. Rhoddir crynodeb yn Nhabl 8 isod.

**Tabl 8. Ffioedd am ddarparu gofal plant fel rhan o Gynnig Gofal Plant Cymru fel cyfran o gyfanswm yr incwm, nodweddion dethol**

| Is-sampl | Ffioedd am ddarparu gofal plant fel rhan o Gynnig Gofal Plant Cymru fel cyfran o gyfanswm yr incwm |
|---|---|
| Pob ymatebydd (n=288) | 22% |
| Gwarchodwr Plant (n=85) | 22% |
| Ar hyn o bryd yn gofalu am blant ag ADY (n=120) | 24% |
| Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff (n=120) | 23% |

Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Gofal Plant ar Incwm a Gwariant, 2024

3.16. Mae Tabl 8 uchod yn dangos bod cyllid o'r Cynnig yn cynrychioli cyfran ychydig yn uwch o'r incwm ar gyfer gwasanaethau sy'n gofalu am blant ag ADY ar hyn o bryd ac sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer holl ymatebwyr yr arolwg. Mae darparu gofal i blant ag anghenion ychwanegol a gwella cyflog yn y sector oll yn nodau polisi i Lywodraeth Cymru, ac mae'r data hyn yn awgrymu y gallai'r Cynnig gyfrannu ychydig yn fwy tuag at gynaliadwyedd gwasanaethau sy'n bodloni'r nodau hyn nag i eraill.

[6] Adolygiad annibynnol o warchod plant | LLYW. CYMRU
[7] Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant i Gymru | LLYW. CYMRU

**Cynaliadwyedd busnes**

3.17. Mae gwerthusiad blaenorol o'r Cynnig wedi canfod bod y rhan fwyaf o ddarparwyr o'r farn bod strwythur y Cynnig, gyda'i ymrwymiad o oriau dros nifer o flynyddoedd, yn cefnogi cynaliadwyedd drwy ddarparu mwy o ddiogelwch iddynt nag a allai fod yn achos eu busnes preifat, yn ogystal â hwyluso mynediad at grantiau eraill.[8] Mae pryderon am effaith y Cynnig ar gynaliadwyedd busnes fel arfer yn ymwneud â lefel y cyllid yn hytrach na dyluniad y rhaglen.[9]

3.18. Gofynnodd arolwg 2024 o incwm a gwariant ymatebwyr am y costau yr oeddent yn eu hwynebu wrth redeg eu busnes. Mae Tabl 9 isod yn cyflwyno mathau o wariant fel cyfrannau o gyfanswm y gwariant a adroddwyd gan yr holl ymatebwyr, wedi'u trefnu o'r uchaf i'r isaf.

**Tabl 9. Cyfran o'r costau a adroddwyd fesul eitem**

| **Cost busnes** | **Cyfran o gyfanswm y costau** |
|---|---:|
| Costau staff | 72% |
| Costau rhent neu forgais | 6% |
| Nwyddau traul – megis bwyd, cewynnau, papur toiled, deunyddiau glanhau ac ati. | 4% |
| Cyfleustodau – megis nwy, trydan, ffôn a'r rhyngrwyd | 4% |
| Trefniadau yswiriant | 3% |
| Cynnal a chadw neu wella eich adeilad | 2% |
| Arall | 2% |
| Trethi eraill ac eithrio trethi cyflogres (megis TAW, trethi corfforaeth) | 2% |
| Cyfarpar/adnoddau chwarae a dysgu (megis teganau, llyfrau, deunyddiau chwarae) | 2% |
| Costau cludiant (megis llogi/cynnal a chadw cerbydau) | 1% |
| Contractau ar gyfer gwasanaethau adeiladu (megis rheoli gwastraff, glanhau, tân, rheoli plâu, boeler, diogelwch ac ati) | <1% |
| Gweithgareddau a gwasanaethau chwarae a dysgu (megis teithiau, darparwyr gweithgareddau chwarae neu ddysgu allanol) | <1% |
| Ffioedd cyrsiau a threuliau ar gyfer hyfforddiant staff | <1% |
| Cyfarpar TGCh a chyflenwadau swyddfa | <1% |
| Costau arlwyo allanol | <1% |

Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Gofal Plant ar Incwm a Gwariant, 2024

[8] Gweler tudalen 48, Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 4 (llyw.cymru)
[9] Gweler tudalen 28, Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 5 | LLYW. CYMRU

3.19. Mae'r cyfnod ers y newid diwethaf i gyfradd ariannu Cynnig Gofal Plant Cymru wedi gweld chwyddiant sylweddol o ran prisiau yn yr economi ehangach. Mae Tabl 10 isod yn crynhoi ymatebion sy'n dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi nodi cynnydd ar gyfer pob categori penodol o gostau. Roedd ymatebwyr yn fwyaf tebygol o adrodd cynnydd yng nghostau staff, nwyddau traul a chyfleustodau.

**Tabl 10: Ymatebion i'r cwestiwn "Yn y ddwy flynedd ddiwethaf ers Ebrill 2022, a yw eich costau wedi cynyddu neu leihau?"**

| **Costau** | **Wedi cynyddu** | **Wedi aros tua'r un fath** | **Wedi gostwng** |
|---|---:|---:|---:|
| Costau staff | 93% | 6% | <1% |
| Nwyddau traul – megis bwyd, cewynnau, papur toiled, deunyddiau glanhau ac ati. | 93% | 7% | <1% |
| Cyfleustodau – megis nwy, trydan, ffôn a'r rhyngrwyd | 89% | 10% | <1% |
| Contractau ar gyfer gwasanaethau adeiladu (megis rheoli gwastraff, glanhau, tân, rheoli plâu, boeler, diogelwch ac ati) | 86% | 13% | <1% |
| Costau cludiant (megis llogi/cynnal a chadw cerbydau) | 84% | 14% | <1% |
| Gweithgareddau a gwasanaethau chwarae a dysgu (megis teithiau, darparwyr gweithgareddau chwarae neu ddysgu allanol) | 81% | 14% | 4% |
| Cynnal a chadw neu wella eich adeilad (gan gynnwys cyflogau/costau unrhyw staff cynnal a chadw a chostau gwaith untro) | 81% | 17% | 1% |
| Unrhyw beth arall, heb ei gynnwys uchod (gallai hyn gynnwys: Ffioedd aelodaeth, costau gweinyddu, costau treulio, ffioedd proffesiynol, costau gwirfoddolwyr, hysbysebu) | 79% | 19% | 1% |
| Trefniadau yswiriant | 76% | 21% | 3% |
| Cyfarpar/adnoddau chwarae a dysgu (megis teganau, llyfrau, deunyddiau chwarae) | 73% | 23% | 4% |
| Cyfarpar TGCh a chyflenwadau swyddfa | 72% | 27% | <1% |
| Trethi eraill ac eithrio trethi cyflogres (megis TAW, trethi corfforaeth) | 72% | 27% | <1% |
| Costau arlwyo allanol | 69% | 29% | <1% |
| Ffioedd cyrsiau a threuliau ar gyfer hyfforddiant staff | 56% | 39% | 4% |


Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Gofal Plant ar Incwm a Gwariant, 2024

**Chwyddiant**

3.20. Fel y cofnodwyd uchod, mae ymatebion i arolygon fel rhan o ymchwil werthuso flaenorol wedi nodi bod darparwyr o'r farn bod y model cyllido cyffredinol a ddarperir gan y Cynnig yn un sy'n cefnogi cynaliadwyedd eu busnesau. Fodd bynnag, fel y dogfennwyd yng ngwerthusiad Blwyddyn Pump y Cynnig (2021-22), mae'r farn hon yn cael ei llywio gan lefel y gyfradd a sut mae hyn yn newid dros amser. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r adolygiad hwn yn awgrymu nad oedd y gyfradd o £5.00 bellach yn ddigonol i gefnogi cynaliadwyedd busnesau o haf 2024.

3.21. Mae'r newid yn y farn ar y gyfradd yn debygol o gael ei lywio gan newidiadau mewn costau busnes dros yr un cyfnod. Fel y dangosir yn Ffigur 1 isod, gwelodd y cyfnod 2022-2024 lefelau chwyddiant yn y Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a oedd yn uwch na'r duedd yn y ddau ddegawd blaenorol, ac yn wir ar lefel nas gwelwyd ers dechrau'r 1990au.

**Ffigur 1: Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr, 1989-2024**




Ffynhonnell: CYFRADD FLYNYDDOL Y CPIH 00: POB EITEM 2015=100 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

3.22. Yn Adroddiad Polisi Ariannol fis Awst 2024, nododd Banc Lloegr fod chwyddiant ar 2 y cant erbyn mis Mai a Mehefin 2024.[10] Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys amcanestyniad y byddai chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn codi uwchlaw 2 y cant yng ngweddill 2024 a dechrau 2025, cyn disgyn o dan 2 y cant yng nghanol y flwyddyn honno. Nid yw'r Banc yn disgwyl i gyfradd chwyddiant

[10] Monetary Policy Report - August 2024 | Banc Lloegr

Mynegai Prisiau Defnyddwyr godi i'r lefelau a welwyd yn 2021-22 na 2022-23 yn y blynyddoedd i ddod.

3.23. Rhwng 2021 (pan bennwyd y gyfradd o £5.00) a mis Medi 2024 pan gynhaliwyd yr adolygiad cyfredol, roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar **20 y cant**. Mesurwyd newid yn y Fynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2024 gan ddefnyddio cyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr.[11]

[11] Inflation calculator | Banc Lloegr

# 4. Newid i'r gyfradd a delir i ddarparwyr Cynnig Gofal Plant Cymru

4.1. Ar gyfer 2025-26, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu'r gyfradd a delir i ddarparwyr Cynnig Gofal Plant Cymru i **£6.40 yr awr**[12]**.** Mae hyn yn gynnydd o **28 y cant** yn uwch na'r gyfradd flaenorol o £5.00 yr awr.

4.2. Mae'r newid hwn yn cynrychioli cynnydd uwchlaw'r gyfradd chwyddiant a gyfrifwyd ar gyfer y cyfnod 2021-2024 (20 y cant).

4.3. Mae'r gyfradd o £6.40 yn uwch na'r ffi gymedrig wedi'i phwysoli a gyfrifir ar gyfer plant tair a phedair oed gan ddefnyddio data SASS 2024 (£5.76, Tabl 3 uchod). Mae'r gyfradd hon hefyd yn uwch na'r ffioedd a godir gan is-grwpiau dethol o'r boblogaeth gwasanaethau gofal plant a chwarae, (gweler Tabl 5 uchod) ac am y ffi gymedrig a godir ym mhob awdurdod lleol ac eithrio Caerdydd (gweler Tabl 6 uchod). Rydym yn amcangyfrif bod tua 20 y cant o wasanaethau gofal plant sy'n gofalu am blant tair a phedair oed yn codi mwy na £6.40 am awr o'r gofal hwn.

[12] Cytundeb y gyllideb yn sicrhau £100m yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus | LLYW. CYMRU